

PERTHYN 2025

Cylchgrawn i gyn-fyfyrwyr **Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant** a sefydliadau rhagflaenol

Dilyn hynt ein Cyn-fyfyrwyr

Tudalen 6

Ymchwil:

Cysylltiad â chanser y bledren ymhlith cyn-filwyr difa bomiau

Tudalen 10

Cyfweliad â myfyrwraig:

Gwenllian Anthony o
Adwaith: *"Fel cerddor, rwy'n teimlo'n rhan o linach."*

Tudalen 24

THE SUNDAY TIMES
CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2026
PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN
AM ANSAWDD
ADDYSGU



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Alumni

Y DRINDOD DEWI SANT · UWTS D

Newyddion a diweddariadau

o'n campysau a'n cymuned o gyn-fyfyrwyr

CROESO

CADW CYSWLLT

Byddem wrth ein bodd i glywed gennych chi, p'un a oes gennych chi adborth ar y rhifyn hwn, stori i'w rhannu, neu eich bod eisiau dweud helo.



alumni@pcydds.ac.uk



www.uwtsd.ac.uk/cy/cyn-fyfyrrwyr



UWTS D Alumni Network

Mae'n bleser gennym gyflwyno rhifyn diweddaraf Perthyn – eich cylchgrawn cyn-fyfyrrwyr o Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS).

Yn y tudalennau hyn, rydym yn dathlu'r profiadau, cerrig milltir, ac atgofion sy'n parhau i'n cysylltu ni i gyd - ble bynnag y mae bywyd wedi mynd â chi ers eich amser gyda ni.

Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys diweddariadau o bob rhan o'n campysau, cipolwg ar ymchwil arloesol, a straeon sy'n anrhydeddu traddodiad a thrawsnewid. O ddatlu llwyddiannau cyn-fyfyrrwyr i blymio i'n harchifau cyfoethog, rydym yn gobeithio bod rhywbeth yma i wneud i chi wenu, i hel atgofion, neu i'ch ysbrydoli.

P'un a wnaethoch chi raddio'n ddiweddar neu flynyddoedd lawer yn ôl, mae'r cylchgrawn hwn yn eich gwahodd i ailgysylltu gyda lle a gyda phobl lle byddwch chi bob amser yn perthyn.

Felly dewch o hyd i foment dawel, a mwynhewch ddal lan â chymuned y Brifysgol.

Joiwch y darllen!



Mared Anthony
Swyddog Cysylltiadau
â Chyn-fyfyrrwyr

CADWCH MEWN CYSYLLTIAD

Mae yna ddigonedd o resymau i gadw mewn cysylltiad â'r Brifysgol. Gall cyn-fyfyrrwyr gael:

- Cymorth gyrfa ac entrepreneuriaidd
- Cyfleoedd datblygiad proffesiynol
- Digwyddiadau rhwydweithio ac aduniadau
- Adnoddau a chyfleusterau'r campws
- Gostyngiadau unigryw, gan gynnwys ar radd ôl-raddedig

Gallwch ddod o hyd i'r rhestr lawn o fanteision i gyn-fyfyrrwyr - ynghyd â thelerau ac amodau – ar uwtsd.ac.uk/cy/cyn-fyfyrrwyr/manteision-i-gyn-fyfyrrwyr

DIWEDDARWCH EICH MANYLION

Rydyn ni'n gwybod bod bywyd yn symud yn gyflym, ac mae'n hawdd colli cysylltiad. Dyna pam rydyn ni'n gofyn am ffafr fach.

Cymerwch eiliad i ddiweddarau eich manylion cyswllt, fel y gallwn gadw mewn cysylltiad a sicrhau eich bod yn derbyn y newyddion a'r cyfleoedd diweddaraf i gyn-fyfyrrwyr.

Sganiwch y cod QR hwn gyda'ch ffôn clyfar neu dabled i ddiweddarau eich manylion.



Neu ewch i:

<https://www.uwtsd.ac.uk/cy/cyn-fyfyrrwyr/diweddaru-eich-manylion>

CYNNWYS

Rhowch gymorth inni	4
Croeso'r Is-Ganghellor	5
Dilyn hynt ein cyn-fyfrwyr	6
Ymchwil: Cysylltiad â chanser y bledren ymhlith cyn-filwyr difa bomiau	10
Y Matrics Arloesi: canolfan ar gyfer arloesi digidol a menter	12
MiniMovers: ap i gefnogi datblygiad corfforol plant	14
Llwyddiant yng nghystadleuaeth Gweinydd Ifanc Cymru 2025	16
Llunio sgiliau at y dyfodol yn WorldSkills 2025	17
O'r Archifau	18
Cyn-fyfrwyr sy'n awduron	20
Dathliad o'r celfyddydau	22
Gwenllian Anthony: cloddio i'r gorffennol, llunio'r dyfodol	24
Dathlu 30 mlynedd o lunio arweinwyr hamdden a thwristiaeth	26
Ail-ddychmygu dinasoedd	32
Twf gyrfaol drwy MA Addysg (Cymru)	33
Llongyfarchiadau i Ddosbarth 2025	34
Aduniadau ar draws y campysau	35
Cymorth entrepreneuriaidd	36
Cymorth gyrfa	37



RHOWCH EICH CEFNOGAETH I NI

Ein cyn-fyfyrrwyr yw ein llysgenhadon pennaf. Mae eich cefnogaeth a'ch ymgysylltiad yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y Brifysgol hon mewn sawl ffordd. Gall eich ymdrechion helpu darpar fyfyrwyr i ddarganfod beth sy'n gwneud PCYDDS yn arbennig, a gwella profiad ein myfyrwyr presennol yn sylweddol.

Dyma sut y gallwch roi eich cefnogaeth i ni:

BYDDWCH YN FENTOR

Mae ein Rhaglen Fentora newydd yn cysylltu myfyrwyr â chyn-fyfyrrwyr i fagu hyder, archwilio syniadau gyrfa, a chael mewnwelediad yn y byd go iawn. Mae mentoriaid hefyd yn elwa trwy ddatblygu eu sgiliau cyfathrebu a hyfforddi eu hunain - gan ei wneud yn brofiad gwerth chweil i bawb sy'n cymryd rhan.

RHANNU EICH PROFIAD

Mae eich taith bersonol yn Y Drindod Dewi Sant yn unigryw ac yn ysbrydoledig. Gyda thystiolaeth am sut mae eich amser yma wedi llywio eich gyrfa a'ch twf personol, gall eich stori roi enghreifftiau o lwyddiant go iawn i fyfyrwyr presennol, neu gallai fod yn ffactor allweddol sy'n helpu darpar fyfyrwr sy'n ystyried eu dyfodol i wneud penderfyniad.

ARGYMELL Y DRINDOD DEWI SANT

Ydych chi'n adnabod rhywun sy'n chwilio am y brifysgol gywir? P'un a yw ffrind, anwylyn neu gymydog yn chwilio am eu gradd gyntaf neu gymhwyster i wella eu gyrfa, beth am argymell Y Drindod Dewi Sant iddynt? Mae eich cymeradwyaeth yn amhrisiadwy, a gall eich barn bersonol wneud byd o wahaniaeth.

AROLWG HYNT GRADDEDIGION

LLUNIWCH Y DYFODOL

Lluniwch y dyfodol Arolwg cenedlaethol dienw yw'r Arolwg Hynt Graddedigion a ofynnir i raddedigion ei gwblhau 15 mis ar ôl iddyn nhw orffen eu rhaglenni.

Bydd cwblhau'r arolwg yn gwneud gwahaniaeth i'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr ac yn codi ymwybyddiaeth o raglenni'r Brifysgol, ein rhaglenni a'u perthnasedd i gyflogwyr.



Darganfod mwy

CROESO'R IS-GANGHELLOR



Annwyl gyfeillion,

**Mae'n bleser mawr
cyflwyno'r trydydd rhifyn
hwn o gylchgrawn
cyn-fyfyrrwyr y
Brifysgol, Perthyn.**

Mae'r teitl yn adlewyrchu'r cysylltiad yr wyf yn gobeithio eich bod chi'n ei deimlo fel aelodau o'n cymuned Brifysgol. Mae'n gymuned sy'n gwerthfawrogi ei phobl a'r effaith a gawn ni, gyda'n gilydd, yn ein cymdeithas. Gellir gweld pŵer trawsnewidiol addysg uwch ar ei amlycaf yn llwyddiannau a chyflawniadau'r rhai sydd wedi astudio gyda ni.

Fel cyn-fyfyrrwyr, mae eich taith a'ch cysylltiad parhaus chi yn ysbrydoliaeth i'n myfyrrwyr presennol. Rydym bob amser yn hoffi clywed am eich teithiau proffesiynol neu bersonol a'r rôl y mae'r Brifysgol hon wedi'i chwarae yn eich bywyd, felly cysylltwch â ni i rannu eich straeon.

Nod Perthyn yw dathlu llwyddiannau niferus ein cyn-fyfyrrwyr ac i roi newyddion i chi am y Brifysgol. Fe welwch hefyd wybodaeth am sut y gallwch rannu eich gwybodaeth a'ch profiadau a chefnogi ein gwaith. Hoffem eich gwahodd yn arbennig i gymryd rhan mewn cynllun mentora newydd.

Yn yr un modd, byddwch yn darganfod sut y gallwn ni barhau i'ch cefnogi chi – p'un a ydych chi'n chwilio am ddatblygiad proffesiynol, yn dymuno cydweithio â ni, yn dechrau eich busnes eich hun neu'n dymuno ymweld â ni.

Mae'r Brifysgol, fel llawer o rai eraill, yn wynebu pwysau ariannol ac ansicrwydd ond rydym wedi wynebu'r heriau hyn fel cymuned Brifysgol ac rwy'n falch o adrodd ein bod bellach mewn sefyllfa gryfach. Rwy'n ddiolchgar iawn i gynifer ohonoch am eich cefnogaeth barhaus wrth i ni geisio sicrhau cynaliadwyedd ariannol y sefydliad ac i ddiogelu'r profiad myfyrrwyr, sydd unwaith eto wedi cael ei gydnabod fel un sy'n arwain y sector.

Rwy'n falch iawn o roi gwybod i chi fod y Brifysgol wedi gwneud yn arbennig o dda yn y tablau cynghrair cenedlaethol eleni. Mae cael eich enwi'n Brifysgol y Flwyddyn am Ansawdd Addysgu 2026 gan y **Times a'r Sunday Times**, a chael eich rhestru'n 1af yng Nghymru ac yn 2il yn y DU yn nadansoddiad **The Times** o Arolwg Cenedlaethol Myfyrrwyr 2025, yn gyflawniad anhygoel sydd wir yn adlewyrchu ymroddiad ac angerdd ein staff.

Roedd trosglwyddo portffolio y Dyniaethau o Lamberd i Gaerfyrddin yn benderfyniad anodd ond angenrheidiol y bu'n rhaid i ni ei wneud er mwyn galluogi'r disgyblaethau i ffynnu mewn amgylchedd a fyddai'n eu cefnogi'n well. Rwy'n falch o adrodd ein bod wedi gweld cynnydd bach, ond calonogol, yn nifer y myfyrrwyr sy'n ymuno â'r rhaglenni hynny eleni. Rydym bob amser wedi bod yn glir bod y Brifysgol wedi ymrwymo i ddyfodol campws Llambed ac rydym bellach yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys y gymuned leol, i sicrhau dyfodol cynaliadwy a bywiog i'r campws.

Rydym hefyd wedi symud campws Busnes Abertawe i gampws SA1 Glannau Abertawe fel rhan o'n strategaeth i gyfoethogi'r profiad myfyrrwyr a gwella cyfleusterau a gwasanaethau. Mae datblygiad SA1 Glannau Abertawe yn cynnwys y Matrics Arloesi, adeilad ac ecosystem o'r radd flaenaf sy'n canolbwyntio ar arloesi digidol lle gall busnesau gydleoli a chydweithio â'r Brifysgol. Mae'r adeilad yn llawn ond, fel y byddwch yn darllen, mae cyfleoedd i chi, fel ein cyn-fyfyrrwyr, fod yn rhan o'r gymuned hon, felly cysylltwch â ni.

Gobeithio y byddwch chi'n mwynhau darllen ein cylchgrawn.

Gyda dymuniadau gorau.

**Yr Athro Elwen Evans, CB
Is-Ganghellor**

DILYN HYNT EIN CYN-FYFYRWYR

Rydym bob amser wrth ein bodd i glywed gan ein cyn-fyfyrwyr a dathlu eich llwyddiannau. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydych chi wedi rhannu straeon am gyflawniadau personol, cerrig milltir proffesiynol, a mentrau newydd beiddgar.

Gyda'i gilydd, mae eich profiadau yn tynnu sylw at yr amrywiaeth ryfeddol o waith sy'n digwydd a'r cyflawniadau anhygoel ar draws ein cymuned.

Cymerwch gip olwg ar rai o'r straeon anhygoel rydych chi wedi'u rhannu gyda ni.



OLIVER RYE YN DYLUNIO BADAU TENDIO AR GYFER UWCH-GYCHOD HWYLIO

Blwyddyn yn unig ar ôl graddio o'r BA Dylunio Modurol a Thrafnidiaeth, mae Oliver yn gweithio fel Drafftswm Dylunio yn Cockwells yng Nghernyw, gan greu badau tendio ar gyfer uwch-gychod hwylio pwrpasol – gan gynnwys prosiectau trawiadol ar gyfer y Four Seasons a'u llongau mordeithio moethus. Dychwelodd i PCYDDS i rannu cyngor a mewnwleidiad i'r diwydiant, ac roedd yn falch o weld cwch hwylio ymhlith prosiectau'r myfyrwyr.





KATRINA SEATON WEDI LANSIO EI GYRFA Y TU ÔL I'R CAMERA

Cafodd Katrina Seaton, cynfyfyrwraig BA Gwneud Ffilmiau gyfle i weithio fel aelod o'r criw ar Havoc, cynhyrchiad Netflix gyda'r actor Tom Hardy, yn ogystal â'r ffilm arswyd annibynnol Cymreig, The Mill Killers, gyda'r naill a'r llall wedi'u ffilmio'n bennaf yng Nghymru. Ar ôl ennill profiad ymarferol fel myfyrwraig, mae hi bellach yn gweithio ym maes ôl-gynhyrchu ac yn datblygu ei phrosiectau ffilm fer a dogfen ei hun.

KEN PEARCE YN TRAFOD ARLOESI YN NHŶ'R ARGLWYDDI

Gwahoddwyd Ken, a raddiodd mewn Dylunio Cynnyrch yn 2020, gan Brifysgolion y DU i Dderbyniad y Canghelloryn Nhŷ'r Arglwyddi i ddathlu rôl prifysgolion wrth yrru arloesi. Gan gynrychioli PCYDDS, rhannodd ei daith entrepreneuraidd a thynnodd sylw at gefnogaeth y brifysgol wrth lansio ei fusnes argraffu 3D, Lunia 3D.



MAE MARIA D'ANGELO YN HYRWYDDO DYSGU YN YR AWYR AGORED

Yn un o raddedigion y cyrsiau Blynnyddoedd Cynnar a TAR, mae Maria yn trawsnewid addysg trwy ei hysgol goedwig, Ffrindiau'r Goedwig. Wedi'i leoli ym Mrynaman, mae'r gwasanaeth addysg awyr agored dwyieithog hwn yn cynnig sesiynau mewn coetir a rhaglen symudol sy'n dod â phrofiadau ysgol goedwig i ysgolion ledled de Cymru. Gan gyfuno ei hastudiaethau ag entrepreneuriaeth, mae Maria yn meithrin creadigrwydd, hyder ac ymwybyddiaeth amgylcheddol trwy fynd â dysgu allan i'r awyr agored ac annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol ym myd natur.






MAE ANN DAVIES A STEVE WITHERDEN YN CYNRYCHIOLI CYMRU YN SAN STEFFAN



Wedi'u hethol ym mis Gorffennaf 2024, mae'r graddedigion Ann Davies, AS a Steve Witherden, AS yn cymryd gwerthoedd a luniwyd yn y brifysgol i'r Senedd - Ann dros Gaerfyrddin a Steve dros Faldwyn a Glyndŵr. Goresgynnodd y ddau heriau personol ac maen nhw'n rhoi clod i amgylchedd dysgu cefnogol a hyblyg PCYDDS am feithrin eu hyder a'u gwytnwch. Er gwaethaf eu rolau cenedlaethol, mae eu gwreiddiau'n ddwfn yng Nghymru o hyd, gan ddod â gwersi o'u cymunedau i'w gwaith yn San Steffan.

MAE NAKITA SWEETLAND YN GRYMUSO POBL IFANC YNG NGHAERDYDD

Gyda graddau mewn Blynyddoedd Cynnar a Gwaith Ieuencid, symudodd Nakita o waith gofal plant i'w rôl fel Gweithiwr Cefnogi Ieuencid gyda Gwasanaeth Ieuencid Caerdydd. Wedi'i gyrru gan angerdd dros helpu pobl ifanc i oresgyn heriau, mae'n meithrin eu hyder a'u gwytnwch, gan helpu iddi dyfu a dod yn rhywun iddynt allu ymddiried ynddi, yn rhywun roedd hi'n ysu am ei gael pan yn ifanc fel nhw.



Joseph Morris

MAE JAMES OWEN YN TYFU EI FUSNES GYDA THALENT PCYDDS

Ers graddio o'r cwrs Gwneud Ffilmiau yn 2021, mae James wedi adeiladu Stori Cymru yn gwmni cynhyrchu dwyieithog sydd wedi ennill gwobrau. Nawr, gyda Joseph Morris, cyn-fyfyriwr arall o'r brifysgol, yn ymuno fel Arweinydd Creadigol, mae'r busnes yn ehangu ei wasanaethau ac yn buddsoddi mewn talent lleol. Wedi'i wreiddio mewn cymuned ac iaith, mae James yn parhau i hyrwyddo potensial creadigol Cymru gan ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf ar yr un pryd.

Oes gennych chi newyddion neu stori i'w rhannu?

Byddem wrth ein bodd yn eich cynnwys ar dudalen we Ystafell Newyddion Cyn-fyfyrwyr, cylchlythyr digidol a rhifyn o *Perthyn* yn y dyfodol.

Cysylltwch â ni!



Joseph Morris, Dr Brett Aggersberg, darlithydd a James Owen

CYSYLLTIAD Â CHANSER Y BLEDREN

YMHLITH CYN-FILWYR DIFA BOMIAU

Mae astudiaeth dan arweiniad PCYDDS wedi datgelu cyfradd anghymesur o uchel o ganser y bledren ymhlith cyn-weithwyr difa bomiau y Fyddin Brydeinig.

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Birmingham, Coleg y Brenin Llundain, Prifysgol Glasgow, ac Ymddiriedolaeth GIG De Cymru, arolygodd ymchwilwyr oddeutu 688 o gyn-filwyr a wasanaethodd mewn rolau Gwaredu Ordnans Ffrwydrol (EOD) er 1970. Darganfuwyd bod cyfradd canser y bledren, ymhlith y rhai o dan 70 oed, hyd at bum gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol.

Cychwynnwyd y prosiect gan Dr Gareth Collett, CBE, Cyfarwyddwr Gweithredol Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru

(WISA) PCYDDS, a chyn Bennaeth Difa Bomiau'r DU. Cafodd Dr Collett ddiagnosis o ganser y bledren yn 56 oed, darganfu'n ddiweddarach bod llawer o'i gydweithwyr wedi cael profiadau tebyg, gan ei annog i weithio gydag wrolegwyr, epidemiolegwyr a gwyddonwyr i ymchwilio ymhellach.

Canfu'r astudiaeth fod cydberthyniad rhwng canser y bledren a dod i gysylltiad ag arfau rhyfel sy'n cynnwys nitroffrwydron fel TNT, a'u cynhyrchion hylosgi. Er ei fod yn hysbys bod dod i gysylltiad â chemegau yn cynyddu'r risg o ganser y bledren mewn diwydiannau fel gweithgynhyrchu teiars a chemegau, hon yw'r astudiaeth gyntaf sy'n cysylltu'r clefyd â gwasanaeth EOD.

Ers i'r ymchwil ddechrau, mae dau gyn-filwr arall wedi cael diagnosis o ganser y bledren, gan dynnu sylw at yr angen dybryd am well sgrinio a mesurau ataliol. Mae elusennau cysylltiedig eisoes wedi rhannu canllawiau ar ganfod yn gynnar, a allai achub bywydau trwy ddiagnosis cynharach.

Mae'r canfyddiadau wedi'u cyhoeddi yn *BJU International* a'u cyflwyno yng nghyngres flynyddol Cymdeithas Wroleg Ewrop ym Madrid. Bellach, mae'r tîm ymchwil yn galw am astudiaethau pellach i gadarnhau'r canlyniadau ac i lywio newidiadau i bolisiâu sy'n anelu at ddiogelu iechyd swyddogion difa bomiau cyffredol a chyn-swyddogion.

Gellir gweld y papur yma:



“Mae’r proffesiwn yn cael ei ymgorffori gan y ‘Daith Unig’ tuag at ffrwydron anrhagweladwy. Mae’r ymchwil hwn yn awgrymu y gallai’r rhai sydd wedi rhoi’r gorau i ddifa bomiau, orfod mynd ar daith gerdded unig arall ymhell ar ôl i’w gwasanaeth ddod i ben.

Gadewch i ni wneud yn siŵr bod gennym y mecanweithiau cymorth ar waith i gynorthwyo’r rhai sydd wedi rhoi cymaint i’w gwlad.”

**DR GARETH COLLETT
CYN-FRIGADYDD**

Mae Dr Gareth Collett CBE yn gyn-arbenigwr mewn difa bomiau yn y maes gwrthderfysgaeth ac mae ganddo Ddoethuriaeth mewn Amddiffyn a Diogelwch. Wedi’i benodi’n CBE yn 2013, arweiniodd broffesiwn difa bomiau’r DU drwy ymgyrchoedd allweddol yn Afghanistan a Gemau Olympaidd Llundain 2012. Yn 2025, derbyniodd Wobr y Llywydd Sefydliad y Peirianwyr Ffrwydron am ei gyfraniadau i ddynoliaeth, diwydiant a gwyddoniaeth. Bellach yn Uwch Ddarlithydd yn PCYDDS, mae’n addysgu ar amgylcheddau risg uchel ac ordnans ffrwydrol. Mae ei ymchwil PhD presennol ar reoleiddio rhagsylweddion cemegol wedi’i fabwysiadu gan y Cenhedloedd Unedig.

LANSIO'R MATRICS ARLOESI: CANOLFAN AR GYFER ARLOESI DIGIDOL A MENTER

Mae'r Brifysgol wedi agor y
Metrics Arloesi, canolfan 2,200
metr sgwâr o'r radd flaenaf
sydd wedi'i lleoli yng nghanol
SA1 Glannau Abertawe.



Wedi'i gynllunio i danio arloesi digidol, entrepreneuriaeth a chydweithio traws-sector, mae'r cyfleuster newydd deinamig hwn wedi'i swatio ochr yn ochr ag adeiladau presennol IQ ac Y Fforwm y Brifysgol.

Mae wedi sefydlu ei hun yn gyflym fel canolfan gweithgarwch ar gyfer busnesau blaengar, gan ddenu nifer o gwmnïau sydd nid yn unig â mynediad at swyddfeydd o ansawdd uchel ond hefyd at arbenigedd ymchwil, rhwydweithiau academiaidd, a chyfleoedd cydweithredol y Brifysgol.

Codwyd yr adeilad o ganlyniad i bartneriaeth strategol rhwng y Brifysgol a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'n cynrychioli buddsoddiad o £6 miliwn yn nyfodol economaidd y rhanbarth ac fe'i cyflawnwyd gan Kier Construction, a sicrhodd gcontractau i nifer o fusnesau yng Nghymru yn ystod y gwaith adeiladu.

Mynychwyd y digwyddiad lansio gan gynrychiolwyr o lywodraethau Cymru a'r DU, arweinwyr dinesig, a phartneriaid diwydiant, a ganmolodd y cyfleuster fel catalydd ar gyfer twf economaidd, creu swyddi, ac arloesi ar draws diwydiannau uwch-dechnoleg.

MANNAU DESGIAU POETH AM DDIM I GYN-FYFYRWYR

Yn dilyn agoriad cyffrous y Matrics Arloesi, rydym yn falch o gynnig desgiau poeth am ddim am 6 mis i gyn-fyfyrrwyr yn yr adeilad hwn.

Gweithiwrch mewn amgylchedd bywiog, proffesiynol gyda mynediad at Wi-Fi cyflym, trwydded barcio, gorsaf de gymunedol, ac ystafelloedd cyfarfod - gan gynnwys mannau cynadledda a phodiau.

Cysylltwch ag: im@pcydds.ac.uk

Gyda deiliadaeth lawn yn yr adeilad, mae'r tenantiaid yn adlewyrchu ystod eang o ddiwydiannau - o dechnoleg feddygol a gwasanaethau iaith i atebion digidol ac ynni ar y môr. Maent yn cynnwys:

- **Kaydiar Medical** – Technoleg orthoteg arloesol ar gyfer atal clwyfau
- **BroadReach Integrity** – Arbenigwyr mewn sganwyr canfod cyrydiad
- **Rockfield** – Datblygwyr systemau efelychu datblygedig at ddefnydd diwydiannol
- **ATiC** – Prototeipio technoleg iechyd trwy brofion defnyddioldeb arloesol
- **Gŵyr Films** – Sefydliad dielw sy'n dathlu adrodd straeon Cymreig
- **Wolfestone** – Darparwyr gwasanaethau iaith byd-eang
- **Purus** – Gwasanaethau morwrol sy'n canolbwyntio ar gymorth ynni glân
- **Visit Digital** – Codio a marchnata digidol
- **S8080** – Dylunio a datblygu gwasanaethau a gwefannau digidol diogel, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ar gyfer y sector cyhoeddus.
- **IDNS** – Dylunio, integreiddio a gweithredu offer clywedol ar gyfer y sector addysg.
- **Shipmax** – Datrys materion sy'n gysylltiedig â chludiant, TG a warysau ar gyfer gwerthwyr e-fasnach, brandiau, cludwyr parseli, anfonwyr nwyddau, a 3PLs.
- **Smiljan** – Cwmni peirianeg sy'n arbenigo mewn Hydrogen ac EV.
- **Ballington Hall Group** – Arloesi meddygol

"Mae agor yr adeilad newydd hwn yn gam sylweddol mewn arloesi digidol, gan ddarparu cyfle unigryw i gydweithio, cyd-leoli, a ffynnu mewn gofod o ansawdd uchel wedi'i gynllunio ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Trwy ddod â diwydiant ac addysg at ei gilydd, rydym yn meithrin amgylchedd lle gall syniadau blaengar ddatblygu, lle gall talent ffynnu, a lle gall arloesi yrru twf economaidd."

**Yr Athro Elwen Evans, CB,
Is-Ganghellor PCYDDS**

MINIMOVERS:

AP SY’N CEFNOGI DATBLYGIAD CORFFOROL PLANT

Ar draws y byd, mae pryderon yn cynyddu ynghylch dirywiad yn sgiliau echddygol plant ifanc.

Mae ymchwiliad yn dangos bod dros 70% o blant yn profi oedi o ran datblygiad, ac yng Nghymru, mae gan 88% o blant 3 oed sgiliau echddygol gwael - gyda llawer yn dechrau yn yr ysgol heb y sylfaen gorfforol sydd ei hangen ar gyfer dysgu, hyder, ac iechyd.

Mewn ymateb, mae tîm Llythrennedd Corfforol PCYDDS, mewn cydweithrediad â'r Athro Jackie Goodway, arbenigwr mewn datblygiad echddygol byd-eang, (Prifysgol Talaith Ohio) a Matt Bond (Popex), partner

technoleg creadigol, wedi creu MiniMovers - ap digidol a gynlluniwyd i helpu teuluoedd i wrth-droi'r duedd hon.

Gan dynnu ar fwy na 30 mlynedd o ymchwi, mae MiniMovers yn darparu gweithgareddau cyflym, sy'n briodol i ddatblygiad y gall rhieni eu gwneud gyda'u plant mewn pum munud y dydd yn eu cartrefi neu yn y gymuned. Mae algorithm unigryw yn teilwra pob gweithgaredd i gam penodol mewn datblygiad plentyn, gan sicrhau cymorth personol.

Mae'r ap yn gwbl ddywyieithog (Cymraeg a Saesneg) ac yn cael ei gyfieithu i'r Almaeneg a'r Ffrangeg, sy'n adlewyrchu uchelgais PCYDDS i ymestyn ei effaith yn fyd-eang.

Mae MiniMovers yn cyd-fynd ag ymdrechion ehangach PCYDDS, megis rhaglen SKIP Cymru, sy'n hyfforddi

athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol a hyfforddwyr i gefnogi datblygiad sgiliau echddygol. Tra bod y rhaglen honno yn canolbwyntio ar ysgolion, mae'r ap yn llenwi bwlch hanfodol trwy gefnogi teuluoedd cyn i blant ddechrau yn yr ysgol.

Mae astudiaeth beilot eisoes wedi dangos canlyniadau addawol, ac mae astudiaeth PhD ar waith i archwilio profiadau teuluoedd a mireinio nodweddion yr ap ymhellach.

Ar adeg pan mae ffyrdd o fyw eisteddog a defnydd gormodol o sgriniau yn bygwth llesiant plant, mae PCYDDS yn defnyddio arloesi digidol i hyrwyddo llesiant plant






“Nid yw rhieni bob amser yn ymwybodol o sut mae bywyd modern yn effeithio ar ddatblygiad eu plant. Mae angen chwarae o ansawdd uchel ar blant ifanc, ac arweiniad i ddatblygu’r sgiliau sy’n sail i fywyd iach, gweithgar. Mae MiniMovers yn rhoi offer syml, seiliedig ar dystiolaeth i rieni i wneud gwahaniaeth o enedigaeth eu plant.”

DR NALDA WAINWRIGHT
ATHRO CYSYLLTIOL A
CHYD-SYLFAENYDD MINIMOVERS

DYSGWCH RAGOR
AM YR AP



Mae **Dr Nalda Wainwright** yn arbenigwr a gydnabyddir yn rhyngwladol mewn datblygiad corfforol plentyndod cynnar, llythrennedd corfforol, a dysgu yn yr awyr agored. Mae hi’n Brif Ddarlithydd a Chyfarwyddwr Academi Iechyd a Llythrennedd Corfforol Cymru yn PCYDDS. Mae ei hymchwil yn helpu gweithwyr proffesiynol i wella llesiant plant, a hi yw’r ymgynghorydd athrawol ar gyfer Iechyd a Llesiant yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Yn gyn-athrawes ysgol gynradd, ac ymgynghorydd addysg genedlaethol, mae Nalda hefyd yn eirioli dros fyw’n weithgar ac mae’n mwynhau treiatlonau, nofio yn y môr, a phadlfyrddio yn Sir Benfro.

LLWYDDIANT YNG NGHYSTADLEUAETH GWEINYDD IFANC CYMRU 2025

**Mae Arwen Garland
wedi cael ei chori'n
Weinydd Ifanc y
Flwyddyn 2025 yng
nghystadleuaeth
fawreddog Cogydd
Ifanc, Gweinydd
Ifanc, Cymysgydd
Coctels Ifanc Cymru,
a gynhaliwyd yn
Stadiwm Swansea.com.**

Gwnaeth y ferch 19 oed o
Abertawe argraff ar y beirniaid
gyda'i phroffesiynoldeb, ei sgiliau
a'i hangerdd am letygarwch.

Dechreuodd taith Arwen yn yr un
lleoliad ar ei phen-blwydd yn 16 oed,
gan gynorthwyo mewn profiad bwyta
tri chwr yn ystod un o gyngherddau
Elton John.

Ers hynny mae hi wedi ennill profiad
ar draws digwyddiadau, cynadleddau,
a lletygarwch ar ddiwrnodau gêm,
ac mae bellach yn gweithio fel
goruchwyliwr bar wrth astudio
Rheolaeth Digwyddiadau a
Gwyliau Rhyngwladol yn y
Drindod Dewi Sant.

Mae ei chwrw wedi rhoi profiad ymarferol
helaeth iddi, gan gynnwys helpu i gyflwyno
Cynhadledd Flynyddol ITT a mynychu
Marchnad Deithio'r Byd yn Llundain.

Roedd y digwyddiad, a gynhaliwyd
ac a gefnogwyd gan y Drindod Dewi
Sant gyda chefnogaeth partneriaid
yn y diwydiant, hefyd yn pwysleisio
cynaliadwyedd, a rhoddwyd cynnyrch
dros ben i Matthew's House, canolfan
lletygarwch a gobaith yn Abertawe.

Mae Arwen nawr yn edrych ymlaen at
gynrychioli Cymru yn Rowndiau Terfynol
y Byd yn Llundain, Chwefror 2026.



LLUNIO SGILIAU AT Y DYFODOL YN **WORLD SKILLS 2025**

Mae'r Brifysgol yn falch o chwarae rhan ganolog yn Rowndiau Terfynol Cenedlaethol WorldSkills UK 2025, digwyddiad sy'n arddangos rhai o'r talentau mwyaf disglair sy'n dod i'r amlwg o bob cwr o'r wlad.

Mae cystadlaethau WorldSkills yn profi talent o dan amodau byd go iawn ac yn rhoi profiad ymarferol i fyfyrwyr sy'n magu hyder, datblygu sgiliau datrys problemau, a gwytnwch, wrth bontio astudiaeth academiaidd ag arfer y diwydiant.

Trwy bartneriaethau agos y Brifysgol â chyflogwyr a mentrau fel yr Academi Sgiliau Gweithgynhyrchu Uwch, mae ein myfyrwyr yn ennill sgiliau ymarferol, mewnwelediad i'r diwydiant, a phrofiad sy'n canolbwyntio ar yrfa sy'n eu paratoi ar gyfer llwyddiant mewn sectorau hynod gystadleuol.

Eleni, mae pedwar o fyfyrwyr a phrentisiaid y Drindod Dewi Sant ymhlith y rhai sydd wedi cyrraedd y rownd derfynol, gan ddangos ansawdd yr hyfforddiant a'r gefnogaeth y mae'r Brifysgol yn eu darparu.

Fel lleoliad swyddogol, mae campws Glannau Abertawe y Brifysgol yn croesawu cystadleuwyr, beirniaid, arbenigwyr y diwydiant, ac ymwelwyr o bob cwr o'r DU ar gyfer y rowndiau terfynol ym mis Tachwedd 2025.



Mae cynnal y digwyddiad yn caniatáu i'r Drindod Dewi Sant arddangos ei chyfleusterau, cryfhau cysylltiadau â'r diwydiant, ac amlgu sut mae dull addysgu ymarferol, sy'n seiliedig ar gyflogwyr yn arfogi myfyrwyr i fodloni gofynion gweithleoedd modern.



Darllenwch ragor am WorldSkills UK a'r rhan mae'r Brifysgol yn chwarae wrth ysgogi cydweithredu a chyflogadwydd y diwydiant

O'R ARCHIFAU

LLYFR COFNODION O GOLEG DEWI SANT WEDI'I DDIGIDEIDDIO



Mae'n bleser gan
Gasgliadau Arbennig
ac Archifau PCYDDS
gyhoeddi bod Llyfr
Cofnodion Coleg Dewi
Sant (1875–1886) wedi'i
ddigideiddio, a'i fod
bellach ar gael drwy
gatalog y llyfrgell.

Gwnaed hyn yn bosibl drwy Brosiect
Gwifoddolwyr Archifau Digidol Crowd
Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Llyfr Cofnodion yn cyfleu cyfnod
tyngedfennol yn hanes y coleg, sy'n
ymestyn ar draws blynyddoedd olaf
Llewelyn Lewellin, y Prifathro hir ei
wasanaeth, ac arweinyddiaeth ddeinamig
ei olynydd, Francis John Jayne.

Wedi ei ddisgrifio fel 'ail sylfaenydd' y
coleg, arweiniodd Jayne ar ddatblygiadau
mawr, gan gynnwys adeiladau newydd,
diwygiadau academiaidd, a chysylltiadau
â Rhydychen a Chaergrawnt.

Ochr yn ochr â cherrig milltir hanesyddol,
mae'r llyfr hefyd yn cofnodi enydau bob
dydd - o benodiadau addysgu newydd i
ffurfio pwyllgor myfyrwyr oedd yn gyfrifol
am fonitro ansawdd prydau'r coleg.



Archwiliwch y Llyfr Cofnodion
wedi'i ddigideiddio yma:



Ydy'r paragraph hyn yn y lle cywir?

Byddem wrth ein bodd i glywed gan unrhyw un o
gyn-fyfyrwyr Coleg Hyfforddi Abertawe - a wnaethoch
chi fynychu unrhyw un o'r cynullïadau hyn? Neu efallai
eich bod chi a'ch cyd-ddisgyblion yn dal i gynnal
eich aduniadau eich hun heddiw? Cysylltwch â ni
a rhannwch eich atgofion!

ETIFEDDIAETH BOWDLER: MWY NA SENSORIAETH



Daeth enw Dr Thomas Bowdler i'r iaith Saesneg drwy'r ferf 'to bowdlerize' - sy'n deillio o'i argraffiad o waith Shakespeare wedi'i lanhau a grëwyd gyda'i chwaer Henrietta, gyda'r nod o wneud y dramâu yn addas i'w darllen gan deuluoedd.

Ond ar ddeucanmlwyddiant ei farwolaeth, mae'n werth cofio ochr arall o'i etifeddiaeth - rhodd lenyddol sylweddol i Goleg Dewi Sant, Llambled a gadwodd drysorfa o fywyd modern cynnar yn ei holl amrywiaeth noeth.

Mae'n debygol bod casgliad y teulu o dros 9,000 o draethodynnau a phamffledi wedi cyrraedd Llambled cyn iddo agor yn 1827, yn rhodd gan Bowdler mewn ymateb i apêl llyfrgell. Wedi'u casglu gan dair cenhedlaeth o deulu Bowdler rhwng 1638 ac 1785, mae'r cyhoeddiadau byrghedlog hyn - yn amrywio o bregethau i ddychan - yn cynnig ffenestr fywiog i bryderon a chwilfrydedd Prydain fodern gynnar.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae papurau newydd cynnar Prydeinig o Ryfeloedd Cartref yr 1640au ac almanaciau o'r

17eg ganrif sy'n cyfuno astroleg ag amaethyddiaeth. Mae'r pynciau'n amrywio o ddamcaniaethau cynllwyn fel y babi yn y badell dwymo, i ddewiniaeth, Swigen Môr y De, a gwrthryfeloedd y Jacobitïaid. Fe wnaeth jôc Ffŵl Ebrill Jonathan Swift ddatgan fod astrolegydd enwog wedi marw - mewn modd mor argyhoeddiadol, cafodd drafferth i brofi fel arall.

Ymhell o fod wedi'i glanhau, mae'r archif hon yn datgelu bywiogrwydd y cyfnod heb ei hidlo, gan gynnig etifeddiaeth barhaol ac annisgwyl gan ddyn sy'n cael ei gofio orau am lanhau llenyddiaeth.

ADLEISIAU O THE SWAN


Ymhell cyn negeseuon e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol, roedd Coleg Hyfforddi Abertawe yn meithrin cymuned o gyn-fyfyrwyr gref a llawn bywyd - un a oedd yn ymgynnull yn ffyddlon bob mis Mehefin ar gyfer ei haduniad blynyddol hir-ddisgwyliedig.

Nid pethau bach oedd y digwyddiadau hyn. Teithiodd cyn-fyfyrwyr o bob cwr o Gymru a dinasoedd fel Llundain, Bryste, Birmingham, a hyd yn oed Scarborough i ailgysylltu â hen ffrindiau ac ail-fyw eu dyddiau coleg.

Arhosodd nifer o gyn-fyfyrwyr oedd yn dychwelyd ar y campws, gan gymryd ystafelloedd myfyrwyr presennol a oedd wedi gadael am wyliâu'r haf. Mae'n destament gwych i'r ymdeimlad o gymuned a gafodd ei feithrin yn y Coleg bod cymaint wedi gwneud yr ymdrech i ddod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Un o uchafbwyntiau penwythnos yr aduniad oedd y cynhyrchiad myfyrwyr blynyddol, a lwyfannwyd gan y Myfyrwyr Iau. Yn ôl rhifyn Gorffennaf 1905 o The Swan - cylchlythyr y Coleg - perfformiad

y flwyddyn honno oedd The Palace of Truth gan W.S. Gilbert, a nodwyd bod "y gynulleidfa wedi llwyr fwynhau" y sioe.



CYN-FYFYRWYR SY’N AWDURON

O lyfrau lluniau i ymchwil academiaidd, mae ein cyn-fyfyrwyr yn parhau i wneud enw iddynt eu hunain drwy’r gair ysgrifenedig. Mae’r rhifyn hwn yn tynnu sylw at raddedigion sydd wedi troi eu hangerdd yn gyhoeddiadau - awduron y mae eu gwaith yn adlewyrchu’r creadigrwydd a’r chwilfrydedd sy’n ffynnu ar draws ein cymuned o gyn-fyfyrwyr.



OCEAN HUGHES

BA DARLUNIO, 2019


Mae Ocean Hughes yn awdur plant a darlunydd y mae ei llyfr cyntaf *Archie, My Dinosaur Friend*, a gyhoeddwyd gan Jellycat, yn dod â dychymyg chwareus a theimladwy yn fyw. Yn weithiwr llawrydd llwyddiannus ac yn unigolyn creadigol angerddol, dychwelodd Ocean i PCYDDS yn ddiweddar i ysbrydoli myfyrwyr Darlunio presennol, gan rannu sut y trodd breuddwydion ei phlentyndod yn yrfa artistig ffyniannus.



LIANNE POTTER

MA ANTHROPOLEG YMGYSYLLTIEDIG, 2017

Mae Lianne Potter yn cyfrannu ei harbenigedd i *mTech Anthropology: Careers at the Frontier*, cyhoeddiad sy’n procio’r meddwl ac yn archwilio’r croestoriad rhwng technoleg ac anthropoleg. Mae ei gwaith yn helpu i oleuo llwybrau gyrfa newydd lle mae mewnwelediad dynol yn cwrdd ag arloesi digidol. Yn seiber-anthropolegydd a thechnolegydd moesegol, mae persbectif unigryw Lianne yn llunio sgysiau sydd ar reng flaen technoleg a chymdeithas.



CHRISTOPHER HERBERT

**BA ASTUDIAETHAU BEIBLAIDD
AC ATHRONIAETH, 1965**

Jane Austen’s Favourite Brother, Henry, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Pen and Sword, yw portread cyfareddol Christopher Herbert o’r aelod mwyaf enigmatig o blant y teulu Austen. Mae’r llyfr eisoes wedi derbyn adolygiadau disglair, wedi’i ddisgrifio fel deunydd darllen “diddorol a gafaelgar” ac “ychwanegiad diwylliedig, treiddgar” i ysgolheictod Austen. Mae Christopher yn cynnig cipolwg newydd i’r teulu y tu ôl i un o awduron enwocaf y byd llenyddol.



PETER ROBERTS

BA HANES, 1994


Mae Peter Roberts, awdur *Park Life* a *Pub Life*, yn dod ag ysbryd Cymoedd y Rhondda i'r dudalen, gan gofnodi bywyd cymunedol trwy bêl-droed Cynghair y Sul a thafarndai lleol. Yn breswlydd yno ar hyd ei oes a phêl-droediwr ar lawr gwlad, mae Peter yn dal hiwmor, dycnwch a chynhesrwydd rhanbarth y mae'n ei adnabod yn drylwyr, ar ac oddi ar y cae pêl-droed.



SHARON TREGENZA

MA YSGRIFENNU CREADIGOL, 2007

Mae Sharon Tregenza yn awdur plant arobryn y mae ei straeon dychmygus yn cyfareddu darllenwyr ifanc. Yn adnabyddus am gyfuno antur a dirgelwch, mae ei llyfrau wedi ennill gwobrau a dilynwyd ffyddlon. Mae gwaith Sharon yn parhau i swyno cynulleidfaoedd a chadarnhau pŵer adrodd straeon wrth sbarduno chwilfyddedd a rhyfeddod mewn plant.



WYN THOMAS

BA HANES CYMRU, 2001

Mae Dr Wyn Thomas, hanesydd ac awdur, yn archwilio un o benodau mwyaf dadleuol Cymru yn Tryweryn: A New Dawn? Mae'r llyfr yn ail-archwilio boddi Cwm Tryweryn yn y 1960au i gyflenwi dŵr i Lerpwl, fflachbwynt yn hanes Cymru. Hefyd yn gerddor, mae Wyn yn dod â llais ag arlliw ac angerdd i'r cof a'r hunaniaeth genedlaethol.



KARL JAMES MOUNTFORD

MA DARLUNIO, 2013

Mae Karl James Mountford yn ddarlunydd enwog a chrëwr llyfrau lluniau sydd wedi'i leoli yng Nghymru. Yn adnabyddus am *The Circles in the Sky* ac *A Voice in the Storm*, mae arddull unigryw Karl yn cyfuno dyfnder emosiynol â delweddau trawiadol. Mae ei waith yn swyno darllenwyr o bob oedran, gan ennill clod am ei gelfyddyd a'i bŵer i adrodd straeon. Llyfr Cymraeg o gerddi Nadolig yw ei brosiect diweddaraf, sy'n arddangos ymhellach ei ystod greadigol.



PETER DONNELLY

MA YSGRIFENNU CREADIGOL, 2006

Mae'r awdur a'r bardd Peter Donnelly wedi cael ei gyhoeddi'n eang mewn cylchgronau llenyddiaeth a blodeugerddi, ac mae wedi cael ei gydnabod mewn cystadlaethau yng ngŵyl farddoniaeth. Wedi'i ddylanwadu gan ei astudiaethau yn Llambed, mae ei waith wedi cael ei ganmol am ei sensitifrwydd a'i manylrwydd. Mae ei gasgliad diweddaraf, *Bloom and Grow* yn archwilio cof a theulu gan dynnu ysbrydoliaeth o dirweddau Swydd Efrog a Chymru.

DATHLIAD O'R CELFYDDYDAU

O berfformiadau beiddgar i arddangosfeydd trawiadol, daeth myfyrwyr campysau Abertawe, Caerfyrddin a Chaerdydd â chreadigrwydd yn fyw yn eu harddangosfeydd diwedd blwyddyn. Gyda dychymyg, sgil ac angerdd, fe wnaethant drawsnewid stiwdios, llwyfannau a mannau oriel yn ddathliadau bywiog o fynegiant artistig.

Myfyrwyr Coleg Celf Abertawe yn datgelu eu teithiau creadigol yn eu sioeau graddio diwedd blwyddyn trawiadol sy'n llawn arloesedd a gweledigaeth.



Roedd myfyrwyr BA Actio a BA Dylunio a Chynhyrchu Setiau Caerfyrddin ar ei ben eu digon gyda pherfformiadau gafaelgar a dyluniadau trawiadol - gan orffen y flwyddyn ar uchafbwynt.



Cyflwynodd myfyrwyr Academi Llais a Chelfyddydau Dramatig Cymru yng Nghaerdydd berfformiadau syfrdanol ar draws cerddoriaeth leisiol, theatr gerddorol, dawns fasnachol ac actio - gan arddangos eu hyblygrwydd, eu hegni a'u sglein broffesiynol.



GWENLLIAN ANTHONY: CLODDIO I'R GORFFENNOL, LLUNIO'R DYFODOL



Mae'r fyfyrwraig archaeoleg, Gwenllian Anthony yn un rhan o dair o'r band Cymraeg Adwaith sydd wedi cael clamp o flwyddyn.

Fe wnaethant greu hanes drwy fod y band cyntaf Cymraeg ei iaith i recordio sesiwn BBC Radio 1 Future Artists yn Maida Vale ac i berfformio yn Gymraeg ar BBC Woman's Hour. Wedi'i henwi'n act Gymraeg mwyaf dylanwadol y degawd diwethaf, coronwyd eu trac "ETO" yn gân y degawd yng Ngwobrau Sound of Miwsig, a gyflwynwyd yn fyw ar The One Show. Mae eu halbwm diweddaraf Solas wedi ennill clod gan The Guardian a'r BBC – a hynny oll wrth i Gwenllian jyglo astudio â bywyd ar daith.

Gydag Adwaith bellach yn cymryd hoe, mae hi'n bwriadu canolbwyntio ar brosiectau unigol - archwiliad o hunaniaeth a chreadigrwydd sydd, fel ei hastudiaethau archaeoleg, yn cloddio i'r gorffennol i siapio'r hyn a ddaw nesaf.

Mae'n rhaid bod teithio gydag Adwaith wrth astudio archaeoleg wedi bod yn dipyn o wrthgyferbyniad. Beth wnaeth dy ddenu at archaeoleg, ac wyt ti wedi dod o hyd i unrhyw gysylltiadau annisgwyl rhwng dy astudiaethau a dy gerddoriaeth?

Dwi wastad wedi dwli ar hanes, ond roedd archaeoleg yn teimlo'n fwy ymarferol a chreadigol, fel creu stori trwy dystiolaeth ac arteffactau. Fe wnes i gais i astudio yn syth ar ôl yr ysgol ond chefais i ddim y graddau ar gyfer fy mhrifysgol dewis cyntaf, ac nid oedd cwrs arall mewn prifysgol wahanol yn teimlo'n iawn chwaith. Ar ôl rhai blynyddoedd allan, fe wnes i ddod o hyd i gwrs rhan-amser hyblyg yn y Drindod Dewi Sant a oedd yn agos at adref, yn ffitio o gwmpas y band, ac yn dod â mi yn ôl at yr hyn roeddwn i'n ei garu.

Mae gan gerddoriaeth ac archaeoleg lawer yn gyffredin mewn gwirionedd. Mae cerddoriaeth wedi bod yn rhan o fywyd dynol ers miloedd o flynyddoedd, ac fel cerddor rwy'n teimlo cysylltiad â'r llinach honno, yn debyg iawn i sut mae archaeoleg yn ein cysylltu â'r gorffennol. Dwi'n gobeithio archwilio hyn ymhellach wrth deithio, gan edrych ar sut mae cerddoriaeth yn clymu i mewn i hanes, hunaniaeth, a'r straeon rydyn ni'n eu trosglwyddo trwy genedlaethau.

Mae'n rhaid bod cydbwysu gwaith maes, darlithoedd, a gigs yn eithaf dwys. Sut wyt ti'n mynd ati i reoli gofynion bywyd academiaidd wrth fod mewn band proffil uchel?

Mae'n bendant yn waith jyglo! Dwi'n ceisio bod yn hyblyg a chanolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf neu ddiddorol ar unrhyw adeg. Pan fyddaf i fwrdd ar daith ac yn colli darlithoedd, rwy'n dal i fyni lle bynnag y gallaf, weithiau o ystafelloedd gwestai wrth fynd trwy recordiadau a darlleniadau. Rwyf hefyd yn dewis cwestiynau traethawd yn strategol, gan blymio'n ddwfn i mewn i un pwnc yn hytrach na cheisio trin a thrafod popeth, sy'n fy helpu i reoli'r llwyth gwaith heb gael fy llethu.

Mae bod yn onest gyda fy narlithwyr o'r dechrau wedi gwneud gwahaniaeth enfawr. Maen nhw wedi bod yn gefnogol iawn, ac rwy'n gwybod y gallaf estyn allan os byddaf byth yn teimlo ar ei hôl hi. Yn fyfyrwr rhan-amser, gall deimlo fel "un droed i mewn, un droed allan," yn enwedig pan fyddaf i fwrdd am fisoedd ar y tro, ond rydw i'n dal i fod wedi gallu cadw i fyny a chyflawni canlyniadau cryf. Mae'n rhaid cadw'n drefnus, blaenoriaethu, a bod yn addasadwy.

Mae cerddoriaeth Adwaith yn aml yn archwilio hunaniaeth, iaith a lle. Sut mae astudio archaeoleg wedi dylanwadu ar y ffordd rwy'ti'n meddwl am y themâu hyn - yn enwedig y Gymraeg - a beth mae siarad a pherfformio yn Gymraeg yn ei olygu i ti'n bersonol?

Mae archaeoleg wedi gwneud i mi adfyfrio mwy ar sut mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru wedi fy siapio. Roedd tyfu i fyny yn siarad Cymraeg yn teimlo'n normal, ond roedd gweld sut mae diwylliannau eraill yn ffurfio hunaniaeth yn rhoi persbectif newydd i mi. Roedd chwarae mewn gwyl ieithoedd lleiafrifol yn yr Eidal yn agoriad llygad gan nad oedd gan lawer o bobl yno'r un hawliau na gweledd ar gyfer eu hieithoedd. Gwnaeth i mi sylweddoli pa mor lwcus ydym ni ac ysbrydolodd fi i archwilio'r themâu hyn yn ddyfnach mewn bywyd ac mewn cerddoriaeth.

Mae'r Gymraeg yn rhan enfawr o bwy ydw i. Rwy'n falch o'i defnyddio'n greadigol mewn ffordd fodern a dangos ei bod yn iaith fyw. Rydyn ni wedi chwarae sioeau sydd wedi gwerthu allan mewn llefydd fel Caergrawnt ac Amsterdam lle mae pobl yn clywed cerddoriaeth Gymraeg am y tro cyntaf ac yn dal i gysylltu â hi. I Adwaith, a fi yn bersonol, mae'n ymwneud â phrofi eich bod chi'n gallu bod yn greadigol ac yn llwyddiannus heb newid i'r Saesneg - ac os yw'n helpu i barato'r ffordd i artistiaid eraill o Gymru, mae'n werth chweil.

Mae 2025 wedi bod yn flwyddyn enfawr i Adwaith. Beth sydd wedi sefyll allan fwyaf, ac am beth wyt ti'n fwyaf balch?

Roedd sesiwn BBC Radio 1 Maida Vale yn enfawr! Roedd yn emosiynol, ac roedd hyd yn oed deigrn yn llygad y cyflwynydd, Sian Eleri, yn y stiwdio. Nid oedd unrhyw act Gymraeg wedi gwneud hynny o'r blaen, felly roedd pob un ohonom yn teimlo ei fod yn garreg filltir. Rydw i hefyd yn falch ein bod wedi rhyddhau ein halbwm dwbl, Solas, a'i deithio. Fe wnaethon ni weithio arno am gymaint o amser, ac roedd chwarae sioeau wedi'u gwerthu allan ledled y DU ac Ewrop yn teimlo'n swreal, yn enwedig wrth feddwl yn ôl i pan oedden ni'n chwarae o flaen ystafelloedd hanner gwag.

Roedd ysgrifennu anthem BBC Radio Cymru ar gyfer UEFA Women's Euro 2025 yn brofiad gwyllt a phwerus hefyd. Roedden ni eisiau i "Aros Am Y Chwiban" fod yn

feiddgar ac yn rymus, yn rhywbeth a oedd wir yn dal egni'r foment ac yn dathlu llwyddiant tîm merched Cymru wrth gyrraedd yr Ewros. Roedd yn fath hollol wahanol o brosiect, ond un a oedd yn golygu llawer.

Mae popeth rydyn ni wedi'i wneud eleni wedi bod er mwyn dangos beth sy'n bosibl yn ein hiaith ein hunain, ar ein telerau ein hunain.

Nawr bod Adwaith yn cael hoe, sut wyt ti'n mynd ati i gydio yn y bennod nesaf hon? At ba brosiectau neu brofiadau newydd wyt ti'n edrych ymlaen?

Gyda'r band yn cymryd hoe, rwy'n gyffrous i archwilio rhywbeth hollol newydd ar fy mhen fy hun. Dydw i erioed wedi ysgrifennu albwm fel unawdydd o'r blaen, felly mae'n gyffrous ac ychydig yn frawychus - fy ngweledigaeth greadigol i fydd y cyfan. Mae'n gyfle i roi cynnig ar bethau newydd, i gymryd risgiau, a gweld ble

bydd fy syniadau yn arwain, boed mewn cerddoriaeth, fy astudiaethau, neu fywyd yn fwy cyffredinol.

Rydw i hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at drochi fy hun yn fy nghwrs a bywyd prifysgol. Dwi wedi bod yn rhoi un droed i mewn, un droed allan dros y cwpl o flynyddoedd diwethaf, ond bydd yr egwyl hon yn gyfle gwych i daflu fy hun i mewn i fy astudiaethau academiaidd. Rwy'n gyffrous i ddysgu rhagor, i ddatblygu fy sgiliau archeolegol, a dod o hyd i'm harbenigedd.

Ochr yn ochr â hynny, dwi hefyd yn bwriadu gwneud rhywfaint o deithio, ac yn gobeithio y bydd hynny'n fy ysbrydoli'n greadigol ac yn bersonol. Ar ôl cyfnod mor brysur gydag Adwaith, mae hyn yn teimlo fel yr eiliad berffaith i oedi, adfyfyrio, ac arbrofi gyda chyfeiriadau newydd. A dweud y gwir, dwi'n agored i weld ble bydd bywyd yn mynd â fi a dilyn beth bynnag sy'n teimlo'n iawn, ac mae'n gyffrous gallu gwneud hynny.



DATHLU 30 MLYNEDD O LUNIO ARWEINWYR HAMDDEN A THWRISTIAETH


Mae'r flwyddyn hon yn garreg filltir gyffrous i'r Brifysgol wrth i ni ddathlu 30 mlynedd ers i garfan gyntaf o raddedigion y radd Hamdden a Thwristiaeth gamu i mewn i'r diwydiant.

Lansiwyd y radd yn 1992, gyda'i graddedigion cyntaf yn croesi'r llwyfan yn 1995, ac ers hynny mae'r rhaglen wedi ymestyn i feysydd Digwyddiadau a Gwyliau, gan ddod yn ganolfan arloesi uchel ei pharch.

Tri deg mlynedd yn ddiweddarach, mae'r graddedigion yn parhau i ffynnu mewn diwydiant byd-eang sy'n newid yn gyson, gan adeiladu gyrfaedd llwyddiannus yn y meysydd hyn, ac ym meysydd lletygarwch, marchnata, diwydiannau creadigol, a thu hwnt - gan arddangos amlbwrpasedd y rhaglenni.

BLE MAEN NHW NAWR?

Dyma linell amser yn dathlu teithiau ein cyn-fyfrwyr dros 30 mlynedd a'r llwybrau gyrfa amrywiol maen nhw wedi'u dilyn.



BYDDEM WRTH EIN BODD I GLYWED GAN RAGOR O'N GRADDEDIGION!

CYSYLLTWCH Â NI A RHOWCH WYBOD I NI I BLE MAE EICH CWRS WEDI MYND Â CHI.



Laura Farrell,
Hyfforddwr Awyrr Agored
i P&O Cruises

"Fe wnaeth fy astudiaethau atgyfnerthu pa mor effeithiol y gall digwyddiadau fod wrth lunio profiadau pobl. Trwy gyfleoedd ar fy nghwrs, rydw i nawr yn rôl fy mreuddwydion!"



Mel Bourke,
Rheolwr Datblygu Busnes yn
Stadiwm Swansea.com

"Heb os, nid yn unig mae'r cyfleoedd di-rif a ddarparwyd i mi yn PCYDDS wedi llunio fy ngyrfa ym maes digwyddiadau, ond maent hefyd wedi fy nghyfoethogi fel unigolyn."



Ethan Scriven,
Cydlunydd Grantiau a
Gweinyddiaeth yn ABTA

"Fy nod drwy fynychu'r cwrs oedd magu hyder, deall y diwydiant, ac yn bennaf oll, dod yn fersiwn well ohonof i fy hun. Dechrau fy nhaith yw hyn. Rwy'n gyffrous i weld i ble fydd y ffordd yn mynd â mi."

2022

2023

2025



Obaidah Sbeitan,
Sylfaenydd Beseen Events
and Marketing

Kirsty Smith,
Uwch Reolwr Cychfannau yn
Celebrity Cruises



Arnold Matsena,
Cyfarwyddwr Llawrydd, Perfformiwr,
Cynhyrchydd a Churadur Celf

"Rwy'n falch o fod yn gyn-fyfyrwr. Deuthym i PCYDDS gyda gobeithion a breuddwydion. Wedi graddio bellach, gallaf ddweud yn onest fy mod yn defnyddio'r holl sgiliau ac offer a gefais o'r cwrs bob dydd. Rwy'n wirioneddol ddiolchgar am fy mhrofiad."

2020

2019

2017



Aggie Grover,
Uwch Bartner Caffael
Talent Byd-eang yn TUI

"Rhoddodd fy nghwrs fwy na gwybodaeth academaidd i mi - siapiodd fy safbwynt ar ddiwyllianau byd-eang, profiad cwsmeriaid, a gwerth pobl. Mae'r mewnwleddiadau hyn wedi arwain fy ngyrfa, gan fy helpu i dyfu i mewn i'm rôl."



Kevin Hughes,
Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Gwestai yn Historic House Hotels &
Hartwell House Hotel & Spa

"Rhoddodd PCYDDS y sylfaen, yr hyder a'r lleoliadau gwaith amhrisiadwy i mi i adeiladu gyrfa mewn gwestai 5 seren ledled Iwerddon, UDA, a Llundain."



Matthew Salleh-Matta Millar,
Uwch Swyddog Gweithredol
Sefydliadau Meysydd Awyrr a
Thwristiaeth yn Jet2holidays

2011

2012

2015

Georgi Godding,
Swyddog Gweithredol Partneriaeth
Brand yn Confused.com

LLUNIO GRADDEDIGION SY’N BAROD AR GYFER Y DIWYDIANT

ETIFEDDIAETH FALCH

Wrth wraidd ein rhaglenni Twristiaeth, Digwyddiadau a Gwyliau mae ymrwymiad i ddysgu yn y byd go iawn, dan arweiniad y diwydiant. O’r cychwyn cyntaf, cawsant eu llunio gan bobl blaenllaw yn y maes - wedi’u sefydlu gan yr Athro Terry Stevens, ymgynghorydd twristiaeth uchel ei barch yn fyd-eang, a’u datblygu gan Andrew Campbell MBE, cyn Bennaeth Ysgol, sy’n parhau i gyfrannu ei arbenigedd heddiw.

Mae Rheolwr y Rhaglen, Jacqui Jones, sy’n rhan o’r tîm ers lawnsio’r radd, wedi cario’r etifeddiaeth honno ymlaen, gan gyflwyno ffocws cryf ar Deithio, Digwyddiadau, a lleoliadau rhyngwladol ar draws Ewrop, yr Unol Daleithiau a’r Dwyrain Canol, yn ogystal â chynadledau a theithiau maes dan arweiniad myfyrwyr i gyrchfannau megis Malaysia, America, Canada, a’r Dwyrain Canol.

ARLOESI MEWN DYSGU

Yn ddiweddarach, mae Jacqui a’r tîm wedi arloesi mewn datblygiadau dysgu digidol, gan gynnwys efelychiadau trochol ar gyfer rheoli argyfyngau, offer VR ac AR a hyfforddiant lletygarwch. Mae’r dulliau blaengar hyn yn ategu dysgu traddodiadol, gan baratoi myfyrwyr i fod yn hyderus, yn hyblyg ac yn barod am ofynion datblygol y sector.

EFFAITH A CHYDNABYDDIAETH Y DIWYDIANT

Yn ddiweddar, cafodd y rhaglenni eu cydnabod gan y Sefydliad Teithio a Thwristiaeth (ITT) yn Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer Twristiaeth mewn digwyddiad yn Nhŷ’r Cyffredin yn dathlu cyflawniadau myfyrwyr a graddedigion. Roedd y gydnabyddiaeth hefyd yn amlygu llwyddiant digwyddiad *Future You Cymru ITT*, a drefnir bob blwyddyn gan ein myfyrwyr yn Arena Abertawe sy’n eu cysylltu ag arweinwyr byd-eang ym meysydd teithio, twristiaeth, digwyddiadau, lletygarwch a busnes, gan ddarparu platfform byd go iawn i ennill profiad, adeiladu rhwydweithiau, a rhoi eu gwybodaeth ar waith.

Gyda phartneriaethau yn amrywio o Arena Abertawe i’r Sefydliad Teithio a Thwristiaeth, Croeso Sir Benfro, y Sefydliad Lletygarwch, ABTA, ATG, a Yummy Jobs - sy’n recriwtio ar ran Disney, yn croesawu myfyrwyr yn America, ac yn noddi Future You - myfyrwyr yn ennill mwy na gradd yn PCYDDS. Maent yn ennill cyfeiriad, hyder, a chysylltiadau ystyrlon.

Darllenwch erthygl lawn Jacqui, “*Grymuso’r genhedlaeth nesaf o arweinwyr twristiaeth*” yma:



“Trwy rymuso myfyrwyr i ddylunio a darparu digwyddiadau twristiaeth, rydym yn helpu i adeiladu economïau lleol cryfach, meithrin cynaliadwyedd, a chreu graddedigion sy’n barod ar gyfer swyddi. Dyma un enghraifft o’r hyn sy’n gwneud dull PCYDDS yn unigryw.” meddai Jacqui.

**JACQUI JONES
RHEOLWR RHAGLEN TWRISTIAETH,
DIGWYDDIADAU A GWYLIAU**

WAL LLWYDDIANNAU: DATHLU EIN GWOBRAU



- **Cwrs Digwyddiadau Gorau** – Gwobrau Digwyddiadau Cenedlaethol 2024
- **Digwyddiad Myfyrwyr Gorau** – Gwobrau Digwyddiadau Cenedlaethol 2023 a 2024
- **Digwyddiad Myfyrwyr Gorau** – Gwobrau Digwyddiadau Awyr Agored Cenedlaethol (NOEA) 2023
- **Rhaglen Addysgol Orau ar gyfer Rheolaeth Teithio a Thwristiaeth Ryngwladol** – Gwobrau Byd-eang 2023 y Sefydliad Lletygarwch yn ogystal â chyrraedd y rownd derfynol yn 2024 a chyrraedd y rownd derfynol ddwywaith yn 2025

SBOTOLAU AR STAFF: DOD YN ÔL I YSBRYDOLI: O FYFYRIWR I FENTOR

Roedd Debbie Jenkins yn rhan o bennod gyntaf un y rhaglen, gan astudio'r HND gwreiddiol cyn i'r radd gael ei lansio yn 1995.

Roedd hi ymhlith y cyntaf i gymryd rhan mewn lleoliadau rhyngwladol gyda Disney yn Orlando, yn ogystal â'r teithiau maes arloesol i Baris a Malta, gan weithio ar gyn-agoriad yr hyn sydd bellach yn Disneyland Paris.

Erbyn heddiw, mae Debbie wedi cwblhau'r cylch, gan ddychwelyd i PCYDDS fel darlithydd, yn cefnogi'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr sy'n dilyn yn ei hôl traed.



AR Y GWEILL ERS 30 MLYNEDD





Wrth i ni ddathlu'r garreg filltir hon, mae etifeddiaeth ein graddedigion ac effaith ein partneriaethau yn pwysleisio llwyddiant y tri degawd diwethaf.

Gyda gwobrau cenedlaethol, cydweithrediadau sydd ymhlith y cyntaf yn y diwydiant, a chyn-fyfrwyr yn cyflawni llwyddiant byd-eang, nid yw dyfodol addysg twristiaeth yma erioed wedi edrych yn fwy disglair.

Dyma gyfle i ddathlu 30 mlynedd o ragoriaeth ac i edrych ymlaen i'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr sy'n camu i'r sbotolau.

AIL-DDYCHMYGU DINASOEDD: PROSIECT GWERTH £3M I FYND I'R AFAEL Â NEWID HINSAWDD GYDA NATUR



Mewn cam beiddgar tuag at ddinasoedd gwyrddach, mae PCYDDS yn arwain prosiect arloesol gwerth £3 miliwn a ariennir gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC).

Mae'r prosiect *Retrofitting for the Future: Nature-Based Solutions for Climate Adaptation* yn dwyn ynghyd academyddion, dylunwyr a phartneriaid dinesig blaenllaw i ailfeddlu am fyw mewn trefi trwy ddylunio bioffilig - gan weithio gyda natur yn hytrach nag yn ei erbyn.

Wrth wraidd y fenter bedair blynedd hon y mae trawsnewid hen adeilad Woolworths Abertawe yn The Biome, "adeilad byw" cyntaf y DU sydd wedi'i ôl-osod. Gan gyfuno tai, masnach, addysg, a natur, mae'r prosiect yn fodel ar gyfer dylunio trefol sydd â gwydnwch rhag yr hinsawdd.

Yn un o dri phrosiect a ddewiswyd yn genedlaethol ar gyfer Gwobrau Cenhadaeth newydd yr AHRC, mae'r fenter yn adlewyrchu dull pwerus, cydweithredol. Mae PCYDDS yn arwain ymchwil i effeithiau cymdeithasol, diwylliannol ac ecolegol ôl-osod bioffilig, gan archwilio sut y gellir addasu adeiladau hŷn a mannau cyhoeddus i gefnogi llesiant, bioamrywiaeth a gwydnwch rhag yr hinsawdd.

Gyda phartneriaid sy'n gynnwys UCL, Prifysgol Abertawe, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac awdurdodau lleol, nod y prosiect yw creu model y gellir ei ailadrodd sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.



"Mae 'Retrofitting for the Future' yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Mae angen i ni ailystyried y ffordd rydyn ni'n byw mewn dinasoedd ar frys nid yn unig yn adeileddol, ond yn emosiynol ac yn ecolegol. Dyma gyfle i ôl-osod nid yn unig adeileddau, ond ein perthnasoedd - gyda natur, ein gilydd, a'r systemau rydyn ni'n byw o'u mewn."

Dr Luci Attala, Dirprwy Gyfarwyddwr cynghrair fyd-eang UNESCO-MOST BRIDGES ac Athro Cysylltiol mewn Anthropoleg yn PCYDDS

Mae ymchwil **Dr Luci Attala** yn archwilio ystyron cymdeithasol-ddiwylliannol dŵr a gwybodaeth amgylcheddol frodorol, wedi'i seilio ar waith ethnograffig hirdymor gyda'r Kogi yng Ngholombia a chymunedau Giriama yng Nghenia. Mae hi'n ymchwilio i sut mae'r newid mewn ymddygiad dŵr o dan straen yr hinsawdd yn siapio cyrff, bywoliaethau, a bywyd bob dydd, gan gynnig persbectif perthynol o fewn anthropoleg amgylcheddol.

Mae Dr Attala hefyd yn cyd-olygu cyfres o lyfrau ar Fateroldebau Newydd ac yn datblygu dulliau ymchwil arloesol, synhwyrdd ac amlrywogaeth, gan ailfeddlu am ddŵr fel partner mewn bywyd dynol a chynaliadwyedd.

TWF GYRFAOL DRWY MA ADDYSG (CYMRU)

Ar ôl tair blynedd yn addysgu mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, roedd Megan Lewis (BA Addysg Gynradd gyda SAC, 2021) yn barod am y cam nesaf.

A hithau bellach yn astudio'r MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) yn PCYDDDS, mae hi'n cyfuno ei hangerdd am addysgu â'r hyblygrwydd i barhau i weithio'n llawn-amser – a hynny wrth astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

“Roeddwn i eisiau dyfnhau fy ngwybodaeth - nid yn unig er fy mwyn i, ond er mwyn fy nysgwyr. Mae'r cwrs hwn wedi caniatáu i mi wneud yn union hynny, wrth aros yn yr ystafell ddosbarth.”

Mae'r rhaglen meistr, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a phrifysgolion ledled Cymru, wedi'i theilwra ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol. Mae'n cynnig cymysgedd o sesiynau ar-lein ac wyneb yn wyneb dewisol, gyda modylau yn amrywio o lesiant emosiynol i arweinyddiaeth broffesiynol.

Roedd dychwelyd i PCYDDDS yn teimlo fel y bennod nesaf naturiol i Megan.

“Mae yna amgylchedd Cymraeg cryf a chefnogaeth wych gan ddarlithwyr. Rydw i wedi gallu cysylltu ag ymarferwyr ledled Cymru a chymhwyso'r hyn rydw i'n ei ddysgu ar unwaith wrth i mi addysgu.”

Cyngor Megan i unrhyw un sy'n ystyried y cwrs yw hyn:

“Ewch amdani! Mae wedi bod yn foddhaus dros ben ac rwy'n gyffrous i weld i ble mae'n fy arwain nesaf.”

Ydych chi'n awyddus i gymryd eich cam nesaf?

P'un a ydych chi'n addysgu, arwain neu gefnogi dysgwyr, gallai'r MA Cenedlaethol mewn Addysg (Cymru) eich helpu i ddatblygu eich gyrfa – gan barhau i weithio ar yr un pryd.

- Astudio'n rhan-amser, yn y Gymraeg neu'r Saesneg
- Yn gyfan gwbl ar-lein gyda darpariaeth hyblyg
- £3,120 y flwyddyn yn unig (3 blynedd, neu 2 gyda chredydau)



Dysgwch ragor am yr
MA Addysg (Cymru)
yn PCYDDDS



LLONGYFARCHIADAU I DDOSBARTH 2025

**Yr haf hwn, fe wnaethom ddathlu
cyflawniadau Dosbarth 2025
yn ystod deg seremoni raddio
a gynhaliwyd ar ein campysau.**

Roedd pob digwyddiad yn nodi penllanw blynyddoedd o ymroddiad, gwytnwch a thwf - ac ennyd o falchder i bawb oedd yn cymryd rhan.

O ystafelloedd dosbarth i stiwdios, ac o leoliadau i berfformiadau, mae graddedigion eleni wedi gwneud eu marc ar draws y brifysgol. Maen nhw wedi cyflwyno syniadau ffres, herio safbwyntiau, ac wedi helpu i lunio ein cymuned mewn ffyrdd parhaol.

Wrth iddynt adael ein cymuned o fyfyrwyr, rydym yn eu croesawu fel aelodau mwyaf newydd ein rhwydwaith cyn-fyfyrwyr - gan fynd â'r profiadau, cyfeillgarwch a gwerthoedd a ffurfiwyd yma gyda nhw.

Dyma gip olwg ar rai o'r enydau a ddiffiniodd y dathliadau eleni.



Darllenwch straeon
rhai o raddedigion
2025 yn ein Hystafell
Newyddion Graddio.

ADUNIADAU AR DRAWS Y CAMPYSAU



Yn ystod y misoedd diweddar, mae aduniadau cyn-fyfyrrwyr wedi dathlu degawdau o atgofion a rennir ar draws y campysau.

Dychwelodd cyn-fyfyrrwyr Coleg y Drindod, Caerfyrddin o'r 1980au, gan gynnwys ymwelwyr o'r Unol Daleithiau o Raglen Coleg Canolog Cymru, ar gyfer teithiau a chinio dathlu.

Croesawodd Coleg Celf Abertawe gyn-fyfyrrwyr Gwydr Lliw Pensaernïol 1985 yn ôl i archwilio stiwdios, archifau a gwaith cyfredol myfyrrwyr, tra bod dosbarth 1995 Ffotograffiaeth yn y Celfyddydau wedi ymgynnull yn anffurfiol yng nghanol dinas Abertawe – cymysgedd o gyn-staff a myfyrrwyr i hel atgofion.

Hefyd, cynhaliodd Cymdeithas Llanbedr Pont Steffan ei haduniad blynyddol ar gampws Llambod, gan barhau â'i thraddodiad o gysylltiad a chyfeillgarwch.

I gadw mewn cysylltiad a chlywed am gynulliadau yn y dyfodol, sicrhewch bod gan y tîm Cyn-fyfyrrwyr eich manylion diweddaraf.

Ac os ydych chi'n bwriadu dod â'ch grŵp blwyddyn eich hun yn ôl at ei gilydd, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi a byddem yn hapus i'ch helpu.

Cymorth Entrepreneuraidd

YDYCH CHI’N CHWILIO AM GYMORTH BUSNES?

Os ydych chi’n berchennog busnes neu’n weithiwr llawrydd ac wedi graddio hyd at ddwy flynedd yn ôl, gallwch gael mynediad at amrywiaeth o gymorth gan ein tîm Menter i’ch helpu i ehangu eich busnes cyfredol neu lansio syniadau newydd.

Wedi graddio, cyfunodd Maria D’Angelo ei hangerdd am addysgu a natur i lansio ysgol goedwig ddwyieithog ym Mrynaman.

Trwy gefnogaeth gan PCYDDS – ei staff addysgu a’r tîm Menter, yn ogystal â Grant i Fusnesau Newydd o £500 – llwyddodd Maria i dyfu ei busnes i fod yn wasanaeth dysgu yn yr awyr agored cynaliadwy.

A hithau bellach yn cyflwyno sesiynau rheolaidd sy’n addysgu sgiliau bywyd gwyllt ac ymwybyddiaeth amgylcheddol i blant, mae Maria yn dweud bod rhedeg ei busnes ei hun wedi rhoi’r rhyddid iddi i lunio ei gyrfa o amgylch ei gwerthoedd a’i chariad at yr awyr agored.

Beth sydd ar gael:

- Mentora 1:1 ac arweiniad arbenigol wedi’i deilwra i’ch nodau
- Cymerwch ran mewn gweithdai rhyngweithiol a digwyddiadau menter
- Magwch yr hyder, a datblygwch y sgiliau cynllunio a strategaeth sydd eu hangen i fasnachu
- Gwnewch gais am ein Grant i Fusnesau Newydd gwerth £500 i roi hwb i’ch menter



Cysylltwch â’n tîm Menter am gymorth ar enterprise@uwtsd.ac.uk

OEDDECH CHI'N GWYBOD BOD GWASANAETH GYRFAOEDD Y DRINDOD DEWI SANT

DAL YMA I CHI AR ÔL I CHI GWBLHAU EICH ASTUDIAETHAU?

Gall ein tîm o ymarferwyr profiadol sydd â chymwysterau proffesiynol ym maes Cyfarwyddyd Gyrfaedd Prifysgol gefnogi cyn-fyfyrwyr hyd at ddwy flynedd ar ôl graddio i archwilio opsiynau gyrfa a gwella cyflogadwyedd.



“Hyd yn oed ar ôl graddio, roedd cael mynediad parhaus at Wasanaeth Gyrfaedd y brifysgol yn gwneud i mi deimlo fy mod yn cael fy nghefnogi a'm cofio. Mae eu harweiniad wedi bod yn allweddol wrth lunio fy nhaith yn y diwydiant estheteg.

Mae cyn-fyfyrwyr hefyd yn cadw mynediad at **MyCareer**, platfform gyrfaedd digidol, am ddwy flynedd ar ôl graddio i gefnogi eu taith broffesiynol.

Am ragor o wybodaeth ar y gwasanaeth yma, cysylltwch â'r tîm gyrfaedd ar:
careers@pcydds.ac.uk

Wrth i mi ehangu fy ngyrfa ledled y DU ac Iwerddon, mae eu cyngor wedi fy helpu i gynnal fy ffocws, i fod yn hyderus ac i gadw mewn cysylltiad â chyfleoedd gwerthfawr.”

**ALINA MARIUTAC
UN O RADDEDIGION
MA ARWEINYDDIAETH**







Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Alumni
Y DRINDOD DEWI SANT · UWTSD



alumni@pcydds.ac.uk



www.uwtسد.ac.uk/cy/cyn-fyfyrywyr



UWTSD Alumni Network